MUSIC.THEATRE.WALES.

# OPERÂU CELFYDDYD STRYD

opera fel ymgyrchu

# GALW ALLAN

Cyfle am Gomisiwn i Grëwyr



# BETH YW OPERÂU CELFYDDYD STRYD?




OPERÂU NEWYDD, BYR SY'N CAEL EU CREU I'W DANGOS YN YR AWYR AGORED, EU TAFLUNIO AR WAL NEU ADEILAD, A PHOBL YN GWRANDO ARNYNT AR FFONAU CLUST DISGO DISTAW. FEL GYDA PHOB CELFYDDYD STRYD, RY'N NI'N AWYDDUS I'R DARNAU HYN GYFLEU NEGES GREF I'R BYD – OPERA FEL YMGYRCHU: BACHOG, COMIG, DYCHANOL, INGOL, PWERUS.

Am beth ry'n ni'n chwilio?

DYLID CREU'R IAITH WELEDOL AR GYFER DEFNYDD YN YR AWYR AGORED TRWY GYNNWYS DARLUNIO GRAFFIG, CELF STRYD, GRAFFITI NEU DECHNEGAU ANIMEIDDIO I GREU ESTHETEG CELFYDDYD STRYD, GYDA'R POSIBILRWYDD O DDEFNYDDIO FFILMIO SGRIN-WERDD. DYLAI'R GEIRIAU FOD YN RHAN O'R DDELWEDD GRAFFIG. DYLAI'R PERFFORMIAD GYNNWYS O LEIAF UN CANWR OPERA, OND GALL HEFYD GYNNWYS MATHAU ERAILL O GANU. GALL Y GERDDORIAETH FOD MEWN UNRHYW GENRE GAN DDEFNYDDIO UNRHYW OFFERYNNAU NEU SEINIAU. GALL Y DARNAU FOD YN GYMRAEG NEU SAESNEG, A CHAIFF POB GWAITH EI DAFLUNIO'N DDWYIEITHOG. NI DDYLAI UNRHYW DDARN GORFFENEDIG BARA AM FWY NA RHYW 10 MUNUD.

## AM BETH RY'N NI'N CHWILIO?

- SYNIAD CLIR A GAFAELGAR AM OPERA CELFYDDYD STRYD NEWYDD
- SYNIAD AR GYFER PWY A BLE MAE E
- AWYDD I WEITHIO FEL RHAN O DÎM CREADIGOL SY'N CYFUNO CRËWR CERDDORIAETH, YSGRIFENNWR AC ARTIST GWELEDOL (GALL MTW GYFLWYNO ARTISTIAID I'W GILYDD I GREU TIMAU)




BYDD MTW YN CYNHYRCHU'R DARNAU A GOMISIYNWYD, YN CYNNWYS TREFNU CANTORION A CHERDDORION, TREFNU'R BROSES RECORDIO A FFILMIO, A DARPARU CYMORTH DRAMATWRGAIDD.

## AMSERLEN:


··GALWAD AGORED A CHYFLE AM GYFARFOD YMGYNGHOROL – RHWNG 31 GORFFENNAF A 29 MEDI 2023
·DYDDIAD CAU AM GEISIADAU – 23 HYDREF 2023
·PENDERFYNU AR Y COMISIYNAU – 10 TACHWEDD 2023
·CWBLHAU'R GOLYGU TERFYNOL (YN BAROD I DDANGOS) – 17 MAI 2024
·DANGOS YR OPERÂU CELFYDDYD STRYD YN GYHOEDDUS – MEHEFIN A GORFFENNAF 2024

# SUT I GYFLWYNO CAIS:

DYLAI CEISIADAU AM GOMISIWN GYNNWYS CRYNODEB O'R NARATIF, DISGRIFIAD O'R GERDDORIAETH RYDYCH YN YSTYRIED EI DEFNYDDIO, A SYNIAD O'R IAITH WELEDOL Y BYDDWCH YN EI DEFNYDDIO.



GELLIR CYFLWYNO CEISIADAU'N YSGRIFENEDIG NEU AR FIDEO. CLICIWCH YMA I YMGEISIO AC AM RAGOR O WYBODAETH.



# CYSYLLTU



MAE MTW YN CYNNIG CYMORTH YMGYNGHOROL I DDATBLYGU EICH CYNNIG CYN I CHI EI GYFLWYNO, I ARCHWILIO EICH SYNIADAU, TRAFOD Y GOBLYGIADAU YMARFEROL AC ARIANNOL, A'R POSIBILRWYDD O'CH CYFLWYNO I ARTISTIAID CYDWEITHREDOL ERAILL. CYSYLLTWCH Â MICHAEL MCCARTHY TRWY EBOST: MICHAEL@MUSICTHEATRE.WALES

MUSIC.
THEATRE.
WALES.